

RHYBUDD o Benderfyniadau cyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd yn yr Ystafell Bwyllgor ac yn Rhithiol ar Zoom ddydd Mawrth, 22 Medi 2026

Cyhoeddir y rhybudd hwn am 5:00pm ddydd Iau, 24 Medi 2026. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm dydd Iau, 1 Hydref 2026. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd cais dilys i'w galw i mewn) ddydd Gwener, 2 Hydref 2026.

Yn bresennol: Y Cyngorwyr Gary Pritchard (Arweinydd) (Cadeirydd), Neville Evans, Carwyn Jones, Dyfed Wyn Jones, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Nicola Roberts, Ieuan Williams a Robin Williams.

Hefyd yn Bresennol: Y Cyngorwyr Jeff Evans, Glyn Haynes, Aled M. Jones, Kenneth Hughes, Sonia Williams.

Ymddiheuriadau: Dim

(10:00 y. b. tan 12:10 y. p.)

RHIF YR EITEM A'R PWNC	4 Cofnodion Amherthnasol
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd cadarnhau bod cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 21 Gorffennaf 2026 yn gywir.
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Amherthnasol
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Amherthnasol
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Amherthnasol
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Amherthnasol
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Amherthnasol

RHIF YR EITEM A'R PWNC	5 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi ei

	diweddarau ar gyfer y cyfnod rhwng Hydref 2026 a Mai 2027 gyda'r newidiadau y cyfeiriwyd atynt yn y cyfarfod.
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaen gynllunio
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Dim
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Dim
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Fel yr amlinellir yn adroddiad y Swyddog
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes

RHIF YR EITEM A'R PWNC	6 Monitro'r Cerdyn Sgorio – Chwarter 1, 2026/27 Adroddiad gan y Pennaeth Digidol, Perfformiad a Moderneiddio
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd cytuno i dderbyn adroddiad y Cerdyn Sgorio ar gyfer Chwarter 1 2026/27 a nodi'r meysydd y mae'r Tîm Arweinyddiaeth a gwasanaethau perthnasol yn eu harchwilio er mwyn sicrhau gwelliannau pellach yn y dyfodol. Roedd y meysydd hyn yn ymwneud â'r laith Gymraeg (ymatebion i ymgynghoriadau); Gofal Cymdeithasol a Llesiant (ymholiadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn yr amserlen); Tai (ailosod eiddo gwag); Economi (archwilio busnesau bwyd risg uchel); Newid Hinsawdd (cyfraddau ailgylchu gwastraff domestig) ac Iechyd Cyngor Cyfan (ymatebion i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth o fewn yr amserlen a lefelau absenoldeb salwch).
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Adnabod a delio â meysydd sy'n tanberfformio o fewn y Cyngor.
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Dim
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Dim
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Fel yr amlinellir yn adroddiad y Swyddog
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes

RHIF YR EITEM A'R PWNC	7 Hunanasesiad a Pherfformiad (Llesiant) Blynnyddol Drafft 2025/26 Adroddiad gan y Pennaeth Digidol, Perfformiad a Moderneiddio
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd mabwysiadu'r Adroddiad Hunanasesiad a Pherfformiad (Llesiant) drafft 2025/26 fel "drafft gweithredol" a gwahodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i ystyried ei gynnwys ymhellach yn ei gyfarfod ar 28 Medi 2026.
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Cydymffurfio â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Dim
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Dim
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Fel yr amlinellir yn adroddiad y Swydddog
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes

RHIF YR EITEM A'R PWNC	8 Monitro Cyllideb Refeniw – Chwarter 1, 2026/27 Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swydddog Adran 151
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd nodi'r canlynol - • Y sefyllfa a nodir yn Atodiadau A, B ac C yn yr adroddiad mewn perthynas â pherfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro a ragwelir ar gyfer 2026/27. • Nodi'r crynodeb o gyllidebau wrth gefn ar gyfer 2026/27, y manylir arnynt yn Atodiad CH. • Nodi'r modd y caiff costau asiantaeth ac ymgynghorwyr eu monitro ar gyfer 2026/27 yn Atodiadau D a DD. • Nodi canlyniadau monitro gwariant y Gronfa Costau Newid ar gyfer 2026/27 yn Atodiad E.

RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Monitro perfformiad y Gyllideb Refeniw ar gyfer 2026/27
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Dim
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Dim
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Fel yr amlinellir yn adroddiad y Swyddog
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes

RHIF YR EITEM A'R PWNC	9 Monitro Cyllideb Gyfalaf – Chwarter 1, 2026/27 Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd - Nodi cynnydd y gwariant a'r derbyniadau yn erbyn cyllideb gyfalaf 2026/27 yn ystod Chwarter 1. Cymeradwyo'r cynlluniau ychwanegol gwerth £7.438m a ychwanegwyd i'r rhaglen gyfalaf, a newidiadau cyllido, yn unol ag Atodiad C yn yr adroddiad, fydd yn rhoi cyllideb gyfalaf ddiwygiedig o £72.127m ar gyfer 2026/27.
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Monitro perfformiad y Gyllideb Gyfalaf ar gyfer 2026/27
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Dim
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Dim
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Fel yr amlinellir yn adroddiad y Swyddog
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes

RHIF YR EITEM A'R PWNC	10 Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai – Chwarter 1, 2026/27 Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd nodi'r canlynol - Y sefyllfa a nodir mewn perthynas â

	pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer Chwarter 1 2026/27. Yr alldro a ragwelir ar gyfer 2026/27.
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Monitro perfformiad y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer 2026/27
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Dim
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Dim
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Fel yr amlinellir yn adroddiad y Swyddog
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes

RHIF YR EITEM A'R PWNC	11 Adolygiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys 2025/26 Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd nodi'r adroddiad blynyddol ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2025/26 ac argymhell bod y Cyngor llawn yn ei gymeradwyo yn ei gyfarfod ar 24 Medi 2026.
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Cydymffurfio â gofynion Deddf Llywodraeth Leol 2003 a Chôd Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys a'r Côd Darbodus
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Dim
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Dim
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Fel yr amlinellir yn adroddiad y Swyddog
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Ddim yn berthnasol. Y Cyngor Llawn sydd yn gyfrifol am gymeradwyo adroddiad yr adolygiad blynyddol Rheoli'r Trysorlys.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	12 Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2027/28 - 2029/30 Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd nodi cynnwys y Cynllun

	Ariannol Tymor Canolig 2027/28 - 2029/30 a chymeradwyo'r rhagdybiaethau sydd wedi'u cynnwys ynddo.
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Cyhoeddi datganiad cyn cyflwyno cyllideb yn unol â gofynion Cyfansoddiad y Cyngor.
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Dim
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Dim
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Fel yr amlinellir yn adroddiad y Swyddog
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes

RHIF YR EITEM A'R PWNC	13 Penderfyniad ar gyflwyno Ardoll Ymwelwyr posibl yn Ynys Môn Adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd)
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd bod y Pwyllgor Gwaith yn cefnogi'r argymhellion canlynol - • Nad yw'r Cyngor yn mabwysiadu'r Ardoll Ymwelwyr o ystyried yr ansicrwydd sy'n wynebu'r sector twristiaeth ar hyn o bryd a chanlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus a'r asesiadau effaith. • Bydd y Cyngor yn monitro, adolygu ac yn ystyried tystiolaeth effaith yr Ardoll Ymwelwyr mewn awdurdodau lleol eraill yng Nghymru a ddewisodd fabwysiadu'r Ardoll, ac unrhyw newidiadau i'r ddeddfwriaeth berthnasol. • Bydd y Prif Weithredwr, ar ôl ymgynghori â'r Arweinydd, yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn am adolygiad o'r drefn ddeddfwriaethol bresennol i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn y broses ymgynghori ddiweddar. Dylid rhannu llythyr o'r fath at Lywodraeth Cymru gyda'r holl aelodau etholedig.
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Dod i farn ynglŷn â mabwysiadu'r Ardoll Ymwelwyr ar Ynys Môn.

DATGANIAD O DDIDDORDEB	Fe wnaeth y Cynghorydd Neville Evans ddatgan diddordeb personol yn unig. Fe wnaeth y Cynghorydd Alun Roberts ddatgan diddordeb personol sy'n rhagfarnu.
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Derbyniodd y Cynghorydd Alun Roberts ganiatâd arbennig i gymryd rhan a phleidleisio ar y mater gan Banel Caniatâd Arbennig y Pwyllgor Safonau ar 24 Gorffennaf 2026
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Fel yr amlinellir yn adroddiad y Swyddog
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Ddim yn berthnasol. Y Cyngor Llawn sydd yn gyfrifol am benderfynu p'un a ddylid mabwysiadu'r Ardoll Ymwelwyr ar Ynys Môn.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	14 Newid i gasgliadau ailgylchu a gwastraff Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd bod y Pwyllgor Gwaith yn cefnogi'r argymhellion canlynol - • Parhau i gasglu gwastraff gweddilliol unwaith bob 3 wythnos o 2029, ond drwy gasglu biniau du 180 litr newydd yn hytrach na'r biniau 240 litr presennol. • Creu mwy o ofod ar gyfer ailgylchu cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl drwy: • Gasglu cardfwrdd a phapur gyda'i gilydd ym mocs top y troli ailgylchu. • Cynnig opsiynau storio ychwanegol ar gyfer ailgylchu cardfwrdd a/neu blastig caled a chaniau ychwanegol. • Cyflwyno ymgyrch i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ailgylchu ac ailddefnyddio. • Cynnal ymchwil i ymestyn y deunydd sy'n cael ei gasglu i'w ailgylchu i gynnwys plastig meddal a deunyddiau eraill. • Symud ymlaen i ddatblygu a chyflwyno achos busnes amlinellol am gyllid i

	Lywodraeth Cymru.
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Ffurio barn ar y newidiadau arfaethedig i'r gwasanaeth casglu gwastraff ac ailgylchu
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Dim
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Dim
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Fel yr amlinellir yn adroddiad y Swyddog
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Ddim yn berthnasol. Y Cyngor Llawn fydd yn gwneud penderfyniad ar y newidiadau arfaethedig i'r gwasanaethau casglu ailgylchu a gwastraff